# Meini Prawf Cynllun Grant Cyfalaf
# Y Gronfa Twf Lleol Sir y Ddinbych a Sir Fflint
# Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Busnes (Mentrau Bach a Chanolig: (Busnesau Newydd, Mentrau Bach a Chanolig)

**DIBEN Y GRANT**

Bydd y cynllun yn darparu **grantiau cyfalaf i fusnesau meicro a bach** i gefnogi:

- **Twf cynhyrchiant**
- **Ysbryd cystadleuol busnes**
- **Creu swyddi a chyflogaeth sy'n talu'n well**
- **Gwydnwch economaidd rhanbarthol**

Mae hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â nod y Gronfa Twf Lleol i **"gefnogi twf cynhyrchiant, helpu busnesau i dyfu, creu swyddi sy'n talu'n well a chryfhau economïau rhanbarthol"**

Mae'r gronfa hon yn cynnig cymorth ariannol i helpu busnesau i ddechrau arni, tyfu ac ehangu. Bydd y grant yn cefnogi busnesau newydd,bach a chanolig yn uniongyrchol yn ogystal â mentrau cymdeithasol sy'n masnachu yn Sir y Ddinbych a Sir Fflint drwy ddarparu cynllun grantiau cyfalaf ar gyfer busnesau newydd a busnesau presennol sy'n gallu rhoi tystiolaeth o'r canlynol:

- Creu swyddi
- Creu mentrau newydd
- Cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau sy'n newydd i'r farchnad
- Mabwysiadu technolegau neu brosesau sy'n newydd i'r busnes

Mae dwy elfen gyllido ar gael, yn dibynnu ar ba gam y mae eich busnes ynddo. Mae'r ddwy elfen yn gofyn ichi gyfrannu 30% o gyfanswm cost y prosiect, gyda'r grant yn cwmpasu hyd at 70%.

Bydd gofyn i fentrau cymdeithasol sy'n masnachu gyfrannu 10% o gyfanswm cost y prosiect o ffynonellau heblaw cyllid grant. Gyda'r Gronfa Twf Lleol yn cwmpasu 90%.

1) ***Twf ac Ehangu***

   **Ar gyfer pwy mae hyn** – Busnesau sefydledig sy'n barod i dyfu ymhellach

   **Proffil busnes nodweddiadol**
   - Masnachu ers dros 24 mis
   - Cynhyrchu incwm rheolaidd
   - Gyda chynnyrch neu wasanaeth sydd wedi'i hen sefydlu
   - Gyda chwsmeriaid presennol

- Edrych i ehangu (e.e. cynyddu gwerthiant, mynd i mewn i farchnadoedd newydd, cyflogi staff neu wella cynhyrchiant)

**Manylion cyllid**
Isafswm cost y prosiect ydy £10,000 (£7,000 o gyllid grant) hyd at £50,000 (£35,000 o gyllid grant).

**Enghreifftiau o brosiectau**
- Prynu offer newydd i gynyddu capasiti
- Ehangu i farchnadoedd newydd
- Buddsoddi mewn arloesedd neu ddatblygu cynnyrch newydd
- Buddsoddi mewn technolegau carbon isel

2) ***Cronfa Dechrau Busnes a Thwf Cynnar***

**Ar gyfer pwy mae hyn** – Busnesau newydd neu sydd wedi'u sefydlu'n ddiweddar sy'n dechrau arni neu'n adeiladu momentwm.

**Proffil busnes nodweddiadol**
- Yn y cyfnod cyn-fasnachu, newydd sefydlu, neu yn masnachu ers llai na 24 mis
- Dal i ddatblygu neu fireinio cynnyrch neu wasanaethau
- Camau cynnar o gynhyrchu incwm
- Canolbwyntio ar ddenu cwsmeriaid cyntaf ac adeiladu presenoldeb

**Manylion cyllid**
Isafswm cost y prosiect ydy £2,857 (£2,000 o gyllid grant) hyd at £10,000 (£7,000 o gyllid grant), yn seiliedig ar raniad 70/30.

**Enghreifftiau o brosiectau**
- Lansio cynnyrch neu wasanaeth newydd
- Prynu offer cychwynnol hanfodol

Mae cyllid yn gyfyngedig, ac felly rhoddir blaenoriaeth i fusnesau cymwys a all ddangos potensial cryf ar gyfer twf yn glir.

Mae'n hanfodol nad yw cyllid drwy'r Gronfa Twf Lleol yn dyblygu cymorth ariannol arall sydd ar gael, fel y Parth Buddsoddi a chymorth grant canol tref yn Sir y Fflint, a'r grant gwella canol tref yn Sir Ddinbych.

**PWY ALL YMGEISIO**

Mae'r gronfa hon ar gael i fusnesau newydd, mentrau bach, canolig a mentrau cymdeithasol sy'n masnachu (y rheiny sy'n cynhyrchu incwm o weithgarwch busnes) yn Sir y Ddinbych a Sir Fflint.

**I fod yn gymwys, rhaid i'ch busnes:**
- Fod â chyfeiriad gweithredu corfforol yn Sir y Ddinbych / Sir Fflint (nid ydy swyddfeydd rhithwir yn gymwys)
- Cofrestru gyda CThEF, neu yn y broses o gofrestru os ydych chi'n fusnes newydd
- Gallu darparu rhif Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) fel rhan o'r broses ymgeisio

**Diffiniad o faint busnes**
Caiff busnes bach i ganolig ei ddiffinio fel busnes sy'n cwrdd ag o leiaf dau o'r meini prawf canlynol:

- Staff: 250 o weithwyr neu lai
- Trosiant Blynyddol: islaw £45 miliwn
- Cyfanswm y Fantolen: islaw £40 miliwnTrosiant o £45 miliwn neu lai

**Beth mae'r gronfa wedi'i chynllunio i'w gefnogi:**
Bwriad y cynllun hwn yw cefnogi busnesau newydd cymwys, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol masnachu gyda'i buddsoddiad cyfalaf arfaethedig yn cyfrannu at dwf busnes, cynhyrchiant, cystadleurwydd a gwydnwch economaidd lleol:

- heb dderbyn cyllid o'r blaen trwy Gadwyn Clwyd, neu gynlluniau grant tebyg;
- yn gallu dangos potensial clir ar gyfer twf;
- yn creu neu'n diogelu swyddi, yn gwella cynhyrchiant, yn cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd, neu'n mabwysiadu technolegau neu brosesau newydd; a
- yn gweithredu mewn, neu'n cefnogi, sectorau sy'n bwysig i economi leol Sir y Ddinbych / Sir y Fflint, gan gynnwys:
    - o Gweithgynhyrchu;
    - o Ynni Glân;
    - o Digidol a Thechnoleg;
    - o Diwydiannau Creadigol;
    - o Twristiaeth a lletygarwch;
    - o Cynhyrchu bwyd a diod;
    - o Mentrau gwledig;
    - o Busnesau manwerthu a stryd fawr; a
    - o Gwasanaethau iechyd, lles a gofal.

Gellir ystyried ceisiadau o sectorau eraill hefyd lle mae'r buddsoddiad arfaethedig yn cefnogi amcanion y gronfa yn glir ac yn darparu buddion economaidd lleol mesuradwy.

**SECTORAU ANGHYMWYS**

Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau o'r sectorau canlynol:

- Glo / mwyngloddio mwynau / echdynnu tanwydd ffosil
- Gweithgynhyrchu dur
- Adeiladu llongau
- Banciau a Chwmnïau Yswiriant
- Cymdeithasau Tai
- Addysg Statudol
- Gwasanaethau Iechyd
- Pysgodfeydd / Amaethyddiaeth / Coedwigaeth / Dyframaeth Cynradd
- Pleidiau gwleidyddol
- Gweithgareddau o natur grefyddol yn unig
- Gamblo
- Pornograffi, neu wasanaethau rhywiol o unrhyw fath

**PA GOSTAU SY'N GYMWYS**

Mae'r gronfa wedi'i chynllunio i gefnogi prosiectau buddsoddi cyfalaf sy'n helpu busnesau i dyfu, gwella cynhyrchiant a dod yn fwy cystadleuol a chynaliadwy.

Dylai costau cyfalaf fodloni'r meini prawf canlynol:

1. Rhaid i'r ased bara am fwy nag 1 blwyddyn;
2. Cost ased o leiaf £500, a
3. Bydd angen i'r ymgeisydd ddangos tystiolaeth o sut y byddai'r ased yn cynhyrchu incwm ychwanegol / yn creu mwy o swyddi.

Gall enghreifftiau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i::

- **Buddsoddiad Cyfalaf mewn Gwelliannau Sero Net a Chynaliadwyedd**
  Prosiectau sy'n helpu i leihau effaith amgylcheddol a chefnogi uchelgeisiau sero net, gan gynnwys:
  - Offer neu dechnolegau ynni-effeithlon
  - Systemau neu beiriannau carbon isel
  - Gosod paneli solar
  - Seilwaith gwefru cerbydau trydan (EV)
  - Gwelliannau sy'n lleihau defnydd ynni neu gostau gweithredu

- **Buddsoddiad Cyfalaf mewn Gwella Busnes a Mabwysiadu Digidol**
  Prosiectau sy'n galluogi busnesau i gyflwyno systemau, prosesau neu ffyrdd o weithio, gan gynnwys:
  - Prynu, gosod neu weithredu meddalwedd neu systemau rheoli rhestr eiddo (heb gynnwys tanysgrifiadau parhaus, costau cynnal (hosting), cynnal a chadw neu gymorth)
  - Datblygu platfform e-fasnach lle mae'n creu neu'n gwella ased busnes gwydn yn sylweddol (heb gynnwys costau cynnal (hosting), cynnal a chadw, diweddariadau cynnwys, ffioedd trafodion neu weithgaredd marchnata arferol parhaus)
  - Systemau a thechnoleg ddigidol a brynir fel asedau sefydlog neu systemau busnes hirdymor
  - Gwasanaethau ymgynghori neu dechnegol arbenigol dim ond lle mae'n uniongyrchol briodol i osod, ffurfweddu, comisiynu neu weithredu eitem neu system gyfalaf gymeradwy
  - Hyfforddiant arbenigol dim ond lle mae'n ategol ac yn hanfodol i weithredu ased neu system gyfalaf gymeradwy (mae hyn wedi'i gyfyngu i gyrsiau tymor byr a gwblheir erbyn diwedd y prosiect ac nid yw'n cynnwys gwersi Iechyd a Diogelwch, hylendid bwyd na gwersi gyrru)

- **Datblygu Cynnyrch a Gwasanaeth**
  Prosiectau sy'n cefnogi busnesau i ddatblygu, gwella neu ehangu cynnyrch neu wasanaethau, gan gynnwys:
  - Prynu offer
  - Peiriannau ac offer
  - Uwchraddio prosesau cynhyrchu neu'r gweithdy
  - Technoleg sydd ei hangen i gyflwyno cynnyrch neu wasanaethau newydd

**Blaenoriaethau Cyllido**
Un o brif flaenoriaethau'r gronfa ydy darparu grantiau cyfalaf i fusnesau newydd, bach a chanolig sy'n gallu dangos manteision busnes clir, gan gynnwys:

- Cynyddu buddsoddiad cyfalaf o fewn y busnes
- Cefnogi arloesedd, mabwysiadu technoleg neu wella prosesau
- Galluogi twf busnes, graddio neu ehangu i farchnadoedd newydd
- Creu swyddi a chyflogaeth sy'n talu'n well
- Gwydnwch economaidd lleol a rhanbarthol cryfach

Mae ceisiadau sy'n gallu dangos yn glir canlyniadau mesuradwy a dangos sut y bydd y cyllid arfaethedig yn helpu'r busnes dyfu, gwella gweithrediadau neu gynyddu cynaliadwyedd dros y tymor hirach yn debygol o sgorio'n gryfach yn ystod yr asesiad.

**Eitemau ail-law**
Mae offer ail-law yn dderbyniol yn amodol ar fodloni'r holl amodau canlynol:

- Mae'r gwerthwr yn darparu datganiad nad oedd yr eitem wedi'i phrynu'n wreiddiol gyda chyllid grant
- Nid ydy cost yr eitem yn fwy na gwerth y farchnad
- Mae cost yr offer yn llai na chost offer newydd tebyg

**Newidiadau i eiddo**
Os ydy eich prosiect yn cynnwys gwneud newidiadau i adeilad neu eiddo – er enghraifft gosod paneli solar, seilwaith gwefru cerbydau trydan, neu welliannau sefydlog eraill – bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth bod gennych chi ganiatâd i wneud y gwaith. Gall hyn gynnwys:

- Copi o'r brydles eiddo neu weithredoedd teitl yn cadarnhau eich bod wedi'ch awdurdodi i ymgymryd â'r prosiect
- Copïau o unrhyw ganiatâd statudol angenrheidiol, megis caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu
- Lle mae'r prosiect yn cynnwys seilwaith trydanol perthnasol, ynni adnewyddadwy neu osodiadau solar, dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o gymeradwyaeth/caniatâd Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) lle bo angen (uwchlaw 3.68kw ar gyflenwad un cam, neu uwchlaw 11.04Kw ar gyflenwad tair cam)
- Rhaid i ymgeiswyr hefyd gynnal diwydrwydd dyladwy i gyfyngiadau penodol i'r safle, megis (ond yn gyfyngedig i) dynodiadau amgylcheddol neu dirwedd e.e. safleoedd o fewn neu'n effeithio ar Dirweddau Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig, neu leoliadau gwarchodedig eraill
- Fel arall, darparwch ddatganiad eich bod wedi cynnal gwiriadau perthnasol ac nad ydych yn credu bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith. Rhaid cynnwys cyfeiriad at y canllawiau/deddfwriaeth briodol yn y datganiad hwn.

Os nad ydych chi'n berchen ar yr eiddo, bydd rhai ichi hefyd ddarparu cadarnhad ysgrifenedig gan y landlord neu berchennog yr eiddo yn cadarnhau eu bod yn cymeradwyo'r gwaith arfaethedig ac y gall y prosiect fynd yn ei flaen.

**COSTAU ANGHYMWYS**

- Eitemau sydd heb eu cymeradwyo gan y panel sgorio
- Unrhyw wariant a wnaed cyn ichi dderbyn y llythyr yn cymeradwyo'r grant (hynny ydy, costau ôl-weithredol)
- Pryniannau drwy arian parod

- Costau staffio / cyflog neu unrhyw gostau staff cysylltiedig (e.e. milltiroedd, cynhaliaeth ayb)
- Costau rhedeg, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i rent, yswiriant, cyfleustodau ac ati.
- Cyfalaf gweithio, fel stoc neu ddeunyddiau crai
- Adnewyddu pethau, hynny ydy, amnewid hen bethau am rai newydd fel offer TG
- Costau atgyweirio, cynnal a chadw, addurno neu eitemau addurniadol (e.e. lluniau, clustogau)
- Eitemau tafladwy (e.e. napcynau, cwpanau coffi, eitemau tafladwy ayb).
- Prynu tir a / neu eiddo (property)
- Eitemau wedi'u prynu drwy brynu ar les, hurbwrcasu, cytundebau credyd estynedig neu les cyllid
- Unrhyw ran o'r prosiect sydd wedi'i gwblhau gan y prif ymgeisydd, neu'r busnes ei hun – yr holl waith i'w gwblhau gan fusnes trydydd parti allanol
- Talu am lobïo, sy'n golygu defnyddio cronfeydd grant i ariannu lobïo (trwy gwmni allanol neu staff mewnol) er mwyn ymgymryd â gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu i ddylanwadu ar y Senedd, y Llywodraeth neu weithgarwch gwleidyddol; neu geisio dylanwadu ar weithredu deddfwriaethol neu reoleiddiol
- Defnyddio cronfeydd grant i alluogi un rhan o'r llywodraeth i herio un arall ar bynciau nad ydynt yn gysylltiedig â phwrpas cytunedig y grant
- Defnyddio cyllid grant i wneud cais am gyllid ychwanegol
- Costau megis ar gyfer adloniant, wedi'u hanelu'n benodol at ddylanwadu'n amhriodol ar newid polisi'r llywodraeth
- TAW adenilladwy gan CThEF (mae TAW nad oes modd ei adennill gan CThEF yn gost cymwys)
- Taliadau am weithgareddau o natur wleidyddol neu grefyddol yn unig
- Cyfraniadau mewn nwyddau
- Taliadau llog neu daliadau tâl gwasanaetha ar gyfer les cyllid
- Anrhegion, neu daliadau am anrhegion neu roddion
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau, iawndal neu unrhyw gostau cyfreithiol cysylltiedig
- Costau ar gyfer gwaith neu weithgareddau sy'n ddyletswydd statudol i'w gwneud, neu sy'n cael eu hariannu'n llawn gan ffynonellau eraill
- Dyledion i bartïon cysylltiedig
- Taliadau am ddiswyddo annheg neu iawndal arall
- Costau dibrisiant neu amorteiddiad neu amhariad ar asedau sy'n eiddo i'r Derbynnydd Grant
- Cronfeydd wrth gefn ac atebolrwydd dibynnol
- Difidendau
- Costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- Costau sy'n ymwneud â dirwyn cwmni i ben
- Costau ar gyfer ailstrwythuro cwmni i'w wneud yn ddichonadwy unwaith eto
- Treuliau cyfreithiol mewn perthynas ag ymgyfreitha
- Costau gan unigolion wrth sefydlu a chyfrannu at gynlluniau pensiwn preifat
- Taliadau sy'n torri neu'n groes i'r cytundeb ariannu neu ddeddfwriaeth y DU

- Unrhyw ymrwymiadau gwariant gan y fenter oedd wedi'u hymrwymo cyn dyddiad dyfarnu'r cyllid (ni fyddwn yn talu costau ôl-weithredol)
- Unrhyw wariant ar ôl cyfnod y grant/dyddiad gorffen y prosiect
- Unrhyw wariant sydd â chyllid dyblyg gaiff ei ddarparu gan drydydd parti, sydd at yr un diben y mae'r cais ar gyfer Cronfa Twf Lleol ar ei gyfer, ond heb ei ddatgan i Gadwyn Clwyd

**CYN ICHI YMGEISIO**

- ➢ Sicrhewch bod y prosiect arfaethedig yn gymwys ac yn addas ar gyfer y gronfa, darllenwch y Nodiadau Canllaw
- ➢ Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am fod yn gymwys, neu'r broses, siaradwch gyda'r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes cyn llenwi ffurflen gais
- ➢ Mae'r holl ffurflenni cais a nodiadau canllaw ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Gall ymgeiswyr gwblhau a chyflwyno eu cais yn y naill iaith neu'r llall
- ➢ Mae'n rhaid cwblhau'r ceisiadau yn electronig gan ddefnyddio'r platfform cyflwyno grantiau ar-lein

Cofiwch sicrhau:

- Bod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau mor llawn â phosibl
- Dim ond un cais gaiff ei gyflwyno fesul busnes
- Rhagolygon llif arian a chynlluniau busnes i'w datblygu gyda chefnogaeth Ymgynghorydd Busnes Cymru neu Swyddog Cadwyn Clwyd
- Rhaid i berchennog y busnes gyflwyno ceisiadau yn uniongyrchol, nid asiant yn gweithredu ar eu rhan

Mae croeso i ymgeiswyr dderbyn cefnogaeth ac arweiniad i'w helpu i gwblhau'r ffurflen gais a'r dogfennau ategol.

**I Ymgeisio**

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, mae'n rhaid i fusnesau:

- Beidio â bod â chais wedi'i gymeradwyo, neu yn y broses o gael ei gymeradwyo, ar hyn o bryd ar gyfer prosiect arall o'r Gronfa Twf Lleol gaiff ei gyflwyno drwy Gadwyn Clwyd neu unrhyw sefydliad arall
- Cofrestru i wneud cyfrif ar y system cyflwyno grantiau ar-lein
- Cwblhau'r ffurflen gais yn llawn unwaith y byddant wedi derbyn gwahoddiad i wneud hynny
- Ymgysylltu ag Ymgynghorydd Busnes Cymru fel rhan o'r broses ymgeisio

Dogfennau y bydd angen ichi eu cynnwys:

- Cynllun busnes 12 mis dichonadwy
- Rhagolwg llif arian 12 mis wedi'i gyflwyno'n fisol (nid yn flynyddol) gan gynnwys cyllid y grant
- Cyfrifon blynyddol diweddaraf
- Dyfynbrisiau
- Cadarnhad o gofrestru gyda CThEF ar gyfer busnesau presennol (rhif UTR)
- Caniatâd cynllunio a / neu reoliadau adeiladu os yn berthnasol

- Cymeradwyaeth Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) os yw'n berthnasol
- Copi o'r les / gweithredoedd os ydych yn gwneud newidiadau i eiddo
- Cadarnhad ysgrifenedig gan y landlord y gall y gwaith fynd ymlaen
- Tystiolaeth o gyfrif banc busnes (nid cyfrif banc personol)
- Cyfansoddiad (os yn fenter gymdeithasol sy'n masnachu)

Gall Ymgynghorydd Busnes Cymru / swyddog Cadwyn Clwyd gefnogi ymgeiswyr i baratoi'r cynllun busnes a'r rhagolwg llif arian. Os oes gennych chi eisoes gynllun busnes neu ragolwg llif arian cyfredol, dylai'r rhain gael eu diweddaru i gynnwys costau a gweithgareddau'r prosiect gaiff eu hariannu drwy'r grant.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr hefyd:

- Allu dangos o leiaf 30% o gyfraniad arian cyfatebol
- Bod â digon o lif arian i dalu am 100% o gostau'r prosiect o flaen llaw cyn hawlio ad-daliad grant gan Gadwyn Clwyd (gellir caniatáu hawliadau fesul cam, yn amodol ar dystiolaeth briodol o wariant – siaradwch â swyddog prosiect os oes angen)
- Bod â mynediad at gyfrif banc busnes yn enw'r busnes sy'n ymgeisio

***Nodwch, ni chaiff taliadau grant eu talu i gyfrifon banc personol.***

**CWBLHAU'R FFURFLEN GAIS**

Cwblhewch bob adran o'r ffurflen gais. Os nad ydy cwestiwn yn berthnasol i'ch busnes neu brosiect, rhowch n/a (not applicable) neu Amh (amherthnasol) yn y blwch testun neu 0 mewn blwch rhif yn hytrach na'i adael yn wag. Ni fydd y ffurflen ar-lein yn gadael ichi symud ymlaen gyda chelloedd / adrannau gwag.

---

**Adran 1: Manylion yr Ymgeisydd**

Rhowch enw llawn a manylion cyswllt y busnes sy'n ymgeisio.

- Mae'n rhaid i'r busnes fod â chyfeiriad gweithredu corfforol yn Sir Ddinbych / Sir y Fflint i fod yn gymwys i dderbyn cyllid
- Mae'n rhaid i'r ymgeisydd sy'n cwblhau'r ffurflen fod ag awdurdod i gyflwyno'r cais ar ran y busnes
- Caiff pob busnes gyflwyno un cais yn unig

---

**Adran 2: Manylion y Busnes**

Dylai'r adran hon roi trosolwg o'ch busnes, gan gynnwys:

- Beth mae'r busnes yn ei wneud
- Pryd y dechreuodd y busnes fasnachu
- Hanes a chefndir cryno'r busnes
- Dewiswch y dewis sy'n disgrifio orau beth ydy strwythur eich busnes

Wrth gwblhau niferoedd gweithwyr:

- Dylai cyfanswm nifer y gweithwyr fod yn hafal i'r nifer cyfunol o staff llawn amser a rhan-amser

Bydd angen ichi hefyd ddarparu dogfennau ategol, gan gynnwys:

- Dyfynbrisiau
- Cyfrifon busnes diweddaraf (lle bo'n berthnasol)
- Cynllun busnes
- Rhagolwg llif arian ar gyfer y 12 mis nesaf

Cadwch eich atebion yn glir ac yn gryno gan osgoi defnyddio jargon technolegol neu acronymau anesboniadwy.

---

**Adran 3: Gwybodaeth Ariannol Busnes Allweddol**

Rhowch wybodaeth ariannol ar gyfer y tair blynedd ariannol ddiwethaf.

- Os ydy eich busnes wedi bod yn masnachu am lai na thair blynedd, rhowch wybodaeth am y blynyddoedd sydd ar gael
- Os ydych chi'n fusnes newydd sy'n dechrau arni, rhowch "0" lle bo'n berthnasol fel y gallwch chi barhau gyda'r cais

---

**Adran 4: Manylion y Prosiect**

Yn yr adran hon, esboniwch:

- Pa gynnyrch, gwasanaethau neu brosesau newydd y bydd y prosiect yn eu cyflwyno
- Sut y bydd yr eitemau gaiff eu hariannu drwy'r grant yn cefnogi'r datblygiadau hyn
- Pam fod y prosiect yn bwysig i'ch busnes

Mae prosiectau sy'n dangos arloesedd neu'n cyflwyno ffyrdd newydd o weithio yn debygol o sgorio'n gryfach wrth asesu. Caiff ymgeiswyr hefyd eu hannog i esbonio:

- A fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth grant
- A fyddai'r prosiect yn cael ei leihau'n sylweddol o ran maint heb gyllid
- A allai'r buddsoddiad ddigwydd fel arall y tu allan i'r ardal

Ni ddylai prosiectau ddechrau cyn i'r cais gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ffurfiol.
Golyga hyn:

- Ni ddylid prynu, archebu neu ddechrau unrhyw eitemau neu wasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cais
- Ni chaiff cyllid ôl-weithredol ei ddyfarnu
- Mae'n rhaid i fusnesau dalu 100% o gostau'r prosiect gaiff eu cymeradwyo i ddechrau cyn hawlio ad-daliad grant

Mae'n rhaid i bob prosiect, gan gynnwys hawliadau a thystiolaeth ategol, fod wedi'u cwblhau yn llawn erbyn **14eg Chwefror 2027**. Mae hyn yn cynnwys:

- Cwblhau gweithgaredd y prosiect
- Cyflawni canlyniadau'r prosiect
- Cyflwyno'r ffurflen hawlio a dogfennau ategol i Gadwyn Clwyd

---

**Adran 5: Allbynnau a Deilliannau**

Byddwn yn gofyn ichi adnabod y deilliannau y bydd eich prosiect yn eu cyflawni, darparu ffigurau targed ac egluro pa dystiolaeth y byddwch chi'n ei chasglu i ddangos cyflawniad. Gall enghreifftiau o dystiolaeth gynnwys:

- Anfonebau a derbynebau
- Cofnodion gyflogaeth
- Ffigurau gwerthiant
- Lluniau
- Deunydd marchnata
- Data arbed ynni

Caiff ceisiadau eu hasesu'n rhannol ar gryfder a realaeth y deilliannau arfaethedig. Os caiff eich cais ei gymeradwyo:

- Bydd y deilliannau cytunedig a'r gofynion tystiolaeth yn rhan o'ch llythyr cymeradwyo

- Ni chaiff taliadau grant eu gwneud nes bod yr holl dystiolaeth angenrheidiol wedi'i chyflwyno

Os ydych chi'n ansicr pa ddeilliannau neu dystiolaeth i'w cynnwys, gweler atodiad A, neu cysylltwch â'r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes am arweiniad.

---

**Adran 6: Cyllid Prosiect**

Nodwch pa elfen ariannu rydych chi'n ymgeisio amdani:

- Cronfa Dechrau Busnes a Thwf Cynnar
- Cronfa Twf ac Ehangu
- Cronfa Mentrau Cymdeithasol

Bydd gan y ffurflen gais ar Submit adran ar gyfer cyllid prosiect y ddwy sir (Sir Ddinbych a Sir y Fflint). Dim ond yr adran sy'n berthnasol i leoliad eich busnes y dylech ei llenwi. Mae angen ateb pob cwestiwn yn yr adran cyllid prosiect.

Mae'n rhaid ichi ddarparu manylion yr holl nwyddau, gwasanaethau neu offer sydd wedi'u cynnwys yn y prosiect, ynghyd â'r costau sydd wedi'u dyfynnu.

**Gofynion Dyfynbris**

- Mae angen tri dyfynbris ar gyfer costau cyflenwyr o £10,000 neu fwy
- Mae angen un dyfynbris ar gyfer costau cyflenwyr o lai na £10,000
- Mae'n arfer da dangos gwerth am arian, a byddem yn argymell cael tri dyfynbris ar gyfer gwariant rhwng £5,000 a £10,000, fodd bynnag nid yw hwn yn ofyniad gorfodol gan y Gronfa Twf Lleol.

**Cydgrynhoad**

Lle mae sawl pryniant gan yr un cyflenwr, defnyddir cyfanswm cost y cyflenwr i bennu gofynion dyfynbris. Er enghraifft, mae oergelloedd sy'n costio £7,000 a ffyrnau sy'n costio £9,000 gan Nisbets yn cyfanswm o £16,000, felly byddai angen tri dyfynbris tebyg gan wahanol gyflenwyr.

Mae'n rhaid cyflwyno copïau o'r holl ddyfynbrisiau ar adeg  gwneud y cais.

Os ydy eich busnes wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, dylid dangos yr holl gostau ac eithrio TAW.

Os caiff unrhyw ddyfynbris ei ddarparu gan barti cysylltiedig neu sy'n gwrthdaro (er enghraifft, aelod o'r teulu neu fusnes cysylltiedig), cysylltwch â'r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes cyn gofyn am ddyfynbrisiau, gan y bydd gofynion ychwanegol yn berthnasol.

**Er mwyn helpu i gadw'r broses ymgeisio a hawlio yn syml:**

- Peidiwch â chynnwys dim mwy na 10 eitem neu drafodiad yn y cais
- Peidiwch â chynnwys costau staffio neu gyflog
- Peidiwch â chynnwys nwyddau traul na stoc masnachu
- Peidiwch â chynnwys costau dosranedig
- Talwch anfonebau ar wahân lle bynnag y bo modd
- Osgowch gyfuno pryniannau gaiff eu hariannu drwy'r grant gyda phryniannau anghysylltiedig y cwmni
- Peidiwch â mynd i wario cyn derbyn cymeradwyaeth ffurfiol
- Osgowch ddefnyddio cardiau credyd oni bai bod modd darparu tystiolaeth ar gyfer eu talu'n llawn

Mae’n rhaid i bob prosiect gaiff ei gymeradwyo gael ei gwblhau a’i hawlio erbyn **14eg Chwefror 2027.**

Edrychwch ar Atodiad B am ganllawiau ar gyfer cwblhau’r hawliad grant.

**Arian Cyfatebol**

Ni fydd Cadwyn Clwyd yn prynu nwyddau na gwasanaethau yn uniongyrchol ar eich rhan. Mae’n rhaid i fusnesau:

1. Prynu a thalu am eitemau gaiff eu cymeradwyo yn llawn
2. Cyflwyno tystiolaeth o daliad (datganiad banc busnes) a dogfennaeth ategol (anfonebau, lluniau ac ati)
3. Hawlio’r cyfraniad grant yn ôl-weithredol

Unwaith caiff yr hawliad ei gymeradwyo, bydd Cadwyn Clwyd yn ad-dalu hyd at 70% o’r costau cymwys wedi’u cymeradwyo.

---

**Adran 7: Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau’r DU**

- Caiff grantiau eu cyfri fel cymorthdaliadau yw o dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal y DU (2022) a byddant yn cael eu dyfarnu o dan Gynllun Twf Busnes Sir Ddinbych a Sir y Fflint SC11599
- Mae'r cynllun yn cefnogi busnesau newydd cymwys, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol masnachu yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint i fuddsoddi mewn twf busnes, cynhyrchiant, arloesedd, technoleg, cynaliadwyedd a chyflogaeth
- Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn gofynion SC11599, gan gynnwys cymhwysedd yr ymgeisydd a'r prosiect, gwariant cymwys, lefel y grant, yr angen ac ychwanegedd. Rhaid i ymgeiswyr ddangos, heb gefnogaeth grant, na fyddai'r buddsoddiad yn mynd rhagddo, y byddai'n cael ei ohirio, neu y byddai'n mynd rhagddo ar raddfa neu effaith lai
- Rhaid i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw gyllid cyhoeddus arall sy'n ymwneud â'r un prosiect neu wariant a darparu rhagor o wybodaeth lle bo angen
- Mae dyfarniadau'n ddewisol ac yn amodol ar werthusiad boddhaol, cyllid sydd ar gael a chydymffurfiaeth ag amodau'r cynllun
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wasanaeth chwiliad Llywodraeth y DU am Gymorthdaliadau'r DU o dan SC11599.

---

**Adran 8: Cydraddoldeb, y Gymraeg a Sero Net**

Yn yr adran hon, dylai ymgeiswyr egluro sut mae’r prosiect wedi ystyried themâu ehangach gan gynnwys:

- Cydraddoldeb a chynhwysiant
- Yr iaith Gymraeg
- Cynaliadwyedd amgylcheddol ac uchelgeisiau sero net

---

**Adran 9: Rhestr Wirio Cyflwyno Cais**

Ni chaiff ceisiadau eu derbyn heb y dogfennau ategol canlynol:

☐ Ffurflen gais wedi’i harwyddo
☐ Copïau o ddyfynbrisiau ar gyfer yr holl eitemau gaiff eu hariannu drwy’r grant
☐ Tystiolaeth o gyllid cyfatebol
☐ Cadarnhad o berchnogaeth eiddo neu ganiatâd y landlord (os yn berthnasol)
☐ Cynllun busnes
☐ Cyfrifon busnes diweddaraf (ar gyfer busnesau sy’n masnachu)
☐ Rhagolwg llif arian ar gyfer y 12 mis nesaf

☐ Unrhyw ddogfennau eraill i gefnogi'ch cais, mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: - ID, caniatâd cynllunio, cymeradwyaeth DNO a.y.y.b.
☐ Cyfansoddiad (ar gyfer mentrau cymdeithasol yn unig)

---

**Adran 10: Datganiad**
Mae'n rhaid i'r ffurflen gais fod wedi'i harwyddo a'i dyddio. Bydd angen dilysu llofnodion electronig, a bydd y system Submit yn anfon dolen atoch drwy e-bost ar wahân.

Drwy arwyddo'r datganiad, mae'r ymgeisydd yn cadarnhau:

- Maent wedi'u hawdurdodi i gyflwyno'r cais ar ran y busnes
- Mae'r holl wybodaeth gaiff ei darparu yn gywir ac yn gyflawn
- Nid ydy'r prosiect wedi dechrau eto
- Mae'r holl ganiatadau a chydsyniadau angenrheidiol ar waith
- Mae arian cyfatebol yn ei le
- Maent yn deall telerau ac amodau'r grant
- Maent yn cytuno i ddarparu gwybodaeth fonitro a chadw cofnodion at ddibenion archwilio
- Maent yn deall bod yn rhaid defnyddio eitemau gaiff eu hariannu drwy'r grant at y diben sydd wedi'i gymeradwyo
- Maent yn cydsynio i rannu gwybodaeth gyda phartneriaid cyflenwi a chyllidwyr perthnasol

Mae ymgeiswyr hefyd yn cadarnhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â holl ofynion perthnasol Rheoli Cymhorthdal y DU.

**Y BROSES YMGEISIO**

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd allu dangos bod eu busnes yn ddichonadwy. Caiff hyn ei asesu drwy gynllun busnes a rhagolwg llif arian, wedi'i ddatblygu gyda chefnogaeth Ymgynghorydd Busnes Cymru fel rhan o'r broses ymgeisio.

Ar ôl cyflwyno, caiff ffurflenni cais wedi'u cwblhau a dogfennau ategol eu hadolygu gan swyddog y prosiect fydd yn asesu ansawdd, cymhwyster a dichonoldeb y prosiect arfaethedig.

Caiff ceisiadau fydd yn pasio'r adolygiad yn llwyddiannus yna eu hystyried gan Phanel Cronfa Twf Busnes Sir y Ddinbych neu Sir Fflint fydd yn penderfynu a ddylid dyfarnu'r cyllid.
Caiff penderfyniadau cyllido eu gwneud yn seiliedig ar:

- Yr wybodaeth gaiff ei darparu yn y ffurflen gais
- Tystiolaeth ategol wedi'i chyflwyno gyda'r cais
- Gwiriadau diwydrwydd dyladwy ychwanegol, lle bo angen

**Sut caiff ceisiadau eu hasesu**
Caiff ceisiadau eu sgorio yn erbyn y meini prawf canlynol:

| Meini Prawf | Uchafswm Sgôr |
|---|---|
| **Realistig a chyflawnadwy** o fewn yr amserlen gyflawni | /20 |
| **Budd Economaidd** *(gan gynnwys cyfrannu at swyddi, twf busnes a chynyddu cynhyrchiant)* | /40 |
| **Cyflawni Allbynnau Deilliannau** *(fel creu swyddi)* | /20 |

| | |
|---|---|
| **Gwerth am Arian** | /20 |
| **Cyfanswm** | **/100** |

Mae'n rhaid i geisiadau gyflawni isafswm sgôr o **60 allan o 100** i fodloni'r trothwy i gael eu hystyried am gymeradwyaeth.

**Canllaw Sgorio**

| **Sgôr /20** | **Sgôr /40*** | **Dosbarthiad** | **Disgrifiad** |
|---|---|---|---|
| **17–20** | **34–40** | **Ardderchog** | Mae'r cynnig yn bodloni'r maen prawf yn gryf, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth glir a chymhellol |
| **13–16** | **26–33** | **Da iawn** | Mae'r cynnig yn bodloni'r maen prawf yn dda, gyda dim ond mân amheuon |
| **9–12** | **18–25** | **Da** | Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r maen prawf, ond gyda rhai cyfyngiadau neu fylchau |
| **5–8** | **10–17** | **Gwan** | Mae'r cynnig yn bodloni'r maen prawf yn rhannol yn unig, gyda thystiolaeth ategol gyfyngedig |
| **1–4** | **1–9** | **Gwan Iawn** | Mae'r cynnig yn darparu achos gwan iawn, gydag amheuon cryf a thystiolaeth annigonol |
| **0 / 0** | **0 / 0** | **Gwael** | Nid ydy'r cynnig yn mynd i'r afael â'r maen prawf yn ddigonol |

* Sgorio allan os yw 40 yn berthnasol i'r meini prawf Budd Economaidd yn unig

**Penderfyniadau Cyllido**
Bydd penderfyniad y Panel Grant yn derfynol.

Gan mai cronfa grant yn ôl disgresiwn ydy hon, nid oes proses apelio ffurfiol.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwch chi'n derbyn e-bost yn egluro'r rheswm/rhesymau pam nad oes modd cynnig cyllid. Efallai y byddwch chi hefyd yn dymuno siarad gydag Ymgynghorydd Busnes Cymru am ddewisiadau cyllid amgen a allai fod ar gael.

**Os bydd eich cais yn llwyddiannus**
Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn:

- Llythyr Dyfarnu yn cadarnhau'r cynnig grant
- Ffurflen Hawlio gyda chanllaw ar sut i hawlio taliadau grant

Mae'n rhaid ichi dderbyn ac ymateb i'r cynnig grant o fewn **10 diwrnod gwaith** o dderbyn eich Llythyr Dyfarnu. Os na fyddwch chi'n ymateb o fewn yr amserlen hon, efallai caiff y cynnig grant ei dynnu'n ôl.

**TELERAU AC AMODAU**

**Brandio a Chyhoeddusrwydd**
Ariennir Cronfa Twf Busnes Sir y Ddinbych / Sir Fflint gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Twf Lleol Sir Fflint (LGF).

Fel rhan o'r gofynion ariannu, mae'n rhaid i Cadwyn Clwyd hyrwyddo'r cymorth sydd wedi'i gynnig drwy'r rhaglen wrth gyfathrebu gyda buddiolwyr a'r cyhoedd ehangach. Gan hynny,

mae’n bosibl y bydd gofyn i’r derbynwyr grantiau gefnogi gweithgarwch cyhoeddusrwydd a hyrwyddo sy’n gysylltiedig â’r gronfa.

**Defnyddio Logos**
Pan fydd deunyddiau cyhoeddusrwydd yn cael eu cynhyrchu sy’n ymwneud â’r prosiect sydd wedi’i ariannu, mae’n rhaid defnyddio’r logos canlynol: Llywodraeth Cymru, Cadwyn Clwyd a Chyngor Sir. Gallai’r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes ddarparu arweiniad a ffeiliau logos.

**Gofynion Cyhoeddusrwydd**
Fel rhan o ofyniad Cadwyn Clwyd i hyrwyddo’r Gronfa Twf Lleol, caiff derbynwyr y grantiau eu cynghori y bydd manylion y grant yn cael eu cyhoeddi. At hyn, efallai y bydd gofyn i’r derbynwyr grantiau gyflawni’r canlynol:

- Cymryd rhan mewn datganiadau i’r wasg a gweithgarwch cyhoeddusrwydd
- Cyfrannu tuag at astudiaethau achos gan dynnu sylw at effaith y cyllid
- Cefnogi gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol gan hyrwyddo’r prosiect a’r gronfa ehangach

At hyn, caiff derbynwyr y grantiau eu hannog i hyrwyddo’r cymorth maen nhw wedi’i dderbyn drwy eu sianeli cyfathrebu eu hunain.

Lle caiff cymorth grant ei hyrwyddo’n gyhoeddus, dylid defnyddio’r geiriad canlynol:

*“Mae [enw’r prosiect] wedi derbyn £[swm] gan Lywodraeth Cymru drwy’r Gronfa Twf Lleol .”*

Pan fydd y derbynwyr yn postio ar y cyfryngau cymdeithasol, fe ddylen nhw gynnwys yr hashnod: **#LGF**

Yn ogystal, caiff y derbynwyr eu hannog i grybwyll Cadwyn Clwyd a Chyngor Sir er mwyn iddyn nhw ail-rannu ac ymateb i’r cynnwys:

| Mudiad | Platfform | Enw Cyfryngau Cymdeithasol | |
|---|---|---|---|
| Cadwyn Clwyd | Facebook | @CadwynClwyd | |
| | Instagram | | |
| | X | | |
| Cyfryngau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol | Facebook | @Cyngorsirddinbych<br>@DenbighshireCountyCouncil | @CSyFflint<br>@FlintshireCC |
| | Instagram | @cyngorsirddinbych<br>@denbighshirecc | dim yn gymwys |
| | X | @CyngorSDd<br>@DenbighshireCC | @CysFflint<br>@FlintshireCC |

**Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a Sero Net**
Mae disgwyl i’r holl brosiectau sy’n derbyn cymorth gan y Gronfa Twf Lleol ddwyn i ystyriaeth yr effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol a chymunedol ehangach:

**Cydraddoldeb**
Dylai’r ymgeiswyr ddwyn i ystyriaeth sut mae eu prosiect:

- Yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal
- Yn gwella hygyrchedd a chynhwysiant
- Yn cefnogi pobl gyda nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Lle'n briodol, dylai'r ymgeiswyr ddangos sut mae gweithgareddau eu prosiect wedi'u dylunio i leihau rhwystrau a chynyddu hygyrchedd i'r eithaf.

**Yr Iaith Gymraeg**
Mae Cadwyn Clwyd yn hyrwyddo ac yn cyfathrebu'r prosiect yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg.

Caiff y derbynwyr grantiau eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yng ngweithgareddau eu prosiect, wrth farchnata a chyfathrebu ac yn eu gweithrediadau busnes ehangach lle bo hynny'n briodol. Mae cymorth ar gael drwy Helo Blod, gwasanaeth rhad ac am ddim gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cymorth a chyngor gyda chyfieithu i fusnesau sy'n awyddus i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.

**Sero Net a Chynaliadwyedd Amgylcheddol**
Dylai ymgeiswyr ystyried sut mae eu prosiect yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol ac yn cyfrannu tuag at uchelgeisiau sero net.
Caiff prosiectau eu hannog i gyflawni'r canlynol:

- Lleihau allyriadau carbon a'u defnydd o ynni
- Mabwysiadu dulliau carbon isel neu sero pan fo'n bosibl
- Cefnogi twf busnes cynaliadwy
- Ystyried eu heffeithiau ar yr amgylchedd naturiol

Dylai ymgeiswyr ddangos sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u dwyn i ystyriaeth yn nyluniad a chyflwyniad eu prosiect.

**Cofrestr Asedau**
Mae gofyn i Cadwyn Clwyd gynnal cofrestr o asedau sydd wedi'u prynu neu eu gwella gan ddefnyddio cyllid grant pan fo'r gwerth yn uwch na £5,000. Gallai asedau gynnwys cyfarpar, peiriannau, gosodiadau sefydlog neu eitemau cyfalaf eraill sydd wedi'u hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy'r grant.

Asedau wedi'u hariannu gan y Grant:
- Dim ond at y dibenion sydd wedi'u disgrifio yn y cais cymeradwy y dylid eu defnyddio
- Rhaid eu cynnal a'u cadw fel eu bod mewn cyflwr da
- Ni ddylid eu gwerthu, eu trosglwyddo, na'u gwaredu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cadwyn Clwyd yn ystod y cyfnod perchnogaeth asedau gofynnol.

Bydd gofyn i fusnesau ddarparu manylion gan gynnwys:
- Disgrifiad o a lleoliad yr ased
- Cost prynu
- Manylion perchnogaeth
- Rhifau cyfresol
- Gwybodaeth gwaredu (os yw'n berthnasol)

Os caiff asedau eu gwaredu heb gymeradwyaeth, gall Cadwyn Clwyd geisio gofyn am ad-daliad o'r cyllid grant cysylltiedig.

**Monitro a Gwerthuso**
Gan fod y rhaglen hon wedi'i hariannu drwy gyllid cyhoeddus, gall Cadwyn Clwyd a Llywodraeth Cymru gynnal gweithgareddau monitro, archwilio neu werthuso. Rhaid i Cadwyn Clwyd

gydymffurfio gyda chais archwilio ymhen amserlenni penodol. Gan hynny, gellir gofyn i ymgeiswyr a derbynwyr grantiau ddarparu'r canlynol:

- Tystiolaeth o'r gwariant
- Dogfennau'r prosiect
- Gwybodaeth am y deilliannau
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â chyflwyno'r prosiect

Dylid cadw'r holl gofnodion sy'n gysylltiedig â'r grant yn unol â gofynion y rhaglen.

**Datganiad Preifatrwydd**
Mae Cadwyn Clwyd yn ystyried preifatrwydd data o ddifrif ac maen nhw'n cydymffurfio gyda deddfwriaeth diogelu data y DU, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR). Caiff gwybodaeth bersonol a busnes sydd wedi'i ddarparu fel rhan o'r broses ymgeisio eu trin yn ddiogel a'u defnyddio er dibenion sy'n ymwneud â gweinyddu, monitro ac archwilio'r rhaglen grant yn unig.  Mae gwybodaeth bellach ar gael ym Mholisi Preifatrwydd Cadwyn Clwyd.

**Adennill Cyllid Grant**
Gellir adennill y cyllid a ddarparwyd oddi wrth y busnes os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol o fewn 5 mlynedd i'r taliad grant terfynol:

- rhoi'r gorau i fasnachu
- newid sylweddol o'r manylion a ddarparwyd yn y cais
- gwerthu unrhyw eitemau neu offer a brynwyd gyda'r grant
- newid perchnogaeth
- symud y busnes y tu allan i Sir y Fflint

Bydd angen ad-dalu'r cyllid fel a ganlyn:

| Dyddiad gwaredu'r ased(au) | Swm i'w ad-dalu |
|---|---|
| O fewn 1 flwyddyn | Ad-dalu'r cyllid yn llawn |
| O fewn 2 flynedd | Ad-dalu 80% o'r cyllid |
| O fewn 3 blynedd | Ad-dalu 60% o'r cyllid |
| O fewn 4 blynedd | Ad-dalu 40% o'r cyllid |
| O fewn 5 mlynedd | Ad-dalu 20% o'r cyllid |
| Ar ôl 5 mlynedd | Dim cyllid i'w ad-dalu |

Yr uchod yw'r gofynion ad-dalu lleiaf.

## ATODIAD A

### Output & Outcome Evidence

| Allbynnau a Deilliannau | Diffiniad | Tystiolaeth Angenrheidiol |
|---|---|---|
| OP09: Nifer y mentrau sy'n mabwysiadu technolegau neu brosesau newydd i'r cwmni | Mentrau sydd wedi mabwysiadu dulliau cynhyrchu neu gyflenwi newydd neu rai sydd wedi'u gwella'n sylweddol.<br><br>Rhaid i fabwysiadu cynhyrchion neu wasanaethau newydd fod o ganlyniad i gefnogaeth LGF, er enghraifft, drwy ariannu offer newydd. | A. Enw'r fenter<br>B. Manylion y dechnoleg neu'r prosesau newydd<br>C. Tystiolaeth o gyflwyno/lansio deunydd/marchnata cynnyrch/gwasanaeth newydd |
| OC01: Swyddi newydd a grëwyd o ganlyniad i gefnogaeth | Swydd newydd nad oedd yn bodoli o fewn y fenter honno cyn y cyllid grant, y disgwylir iddi fodoli am o leiaf 12 mis o ganlyniad i'r gefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys swyddi rhan-amser, llawn amser a hunangyflogedig. Dylid cofnodi swyddi rhan-amser o'u cymharu â chyfwerth ag amser llawn (FTE), er enghraifft adrodd 0.5 ar gyfer swydd am hanner yr oriau llawn amser safonol. Dylai FTE fod yn seiliedig ar oriau llawn amser safonol y cyflogwr. Nid yw swyddi a grëwyd yn cynnwys y rhai a grëwyd yn unig i gyflawni'r ymyrraeth. | Awgrymir - A, a naill ai B neu C<br>A. Enw'r Fenter<br>B. Cofnodion AD (HR), Hysbyseb Swydd (wedi'i dyddio ar ôl cefnogaeth LGF), contract neu lythyr cyflogaeth<br>C. Tystiolaeth cyflogres (payroll), Disgrifiad Swydd. |
| OC02: Nifer y mentrau newydd a grëwyd o ganlyniad i gefnogaeth | Menter newydd a grëwyd yw un sydd wedi'i chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau neu CThEM o ganlyniad i'r gefnogaeth a ddarparwyd. | Awgrymir - A a B<br>A. Enw'r fenter a grëwyd<br>B. Cofrestru cwmni neu dystiolaeth CThEM i ddangos creu busnes |
| OC08: Nifer y cynhyrchion newydd i'r farchnad | Menter sy'n cyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r farchnad, sy'n golygu nad oes unrhyw gynnyrch arall ar gael sy'n cynnig yr un swyddogaeth, neu fod y dyluniad neu'r dechnoleg y mae'r cynnyrch newydd yn ei defnyddio yn sylfaenol wahanol i gynhyrchion presennol. Gall cynhyrchion gynnwys gwasanaethau neu brosesau. Rhaid i gefnogaeth fod ar gael er mwyn i fusnes gyflwyno un o'r canlynol:<br>• Cynnyrch - pan fydd naill ai cyn ei lansio neu wedi'i lansio i'r farchnad<br>• Gwasanaeth - pan fydd wedi'i gyflwyno i'r farchnad | Awgrymir - A, B a C<br>A. Enw'r fenter<br>B. Manylion cynnyrch neu wasanaeth newydd<br>C. Dogfennaeth lansio/marchnata |

## ATODIAD B

**Llenwi ffurflen hawlio ar gyfer taliad**

Bydd Cadwyn Clwyd yn eich gwahodd i gwblhau ffurflen hawlio ar Submit unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi talu am yr holl gostau cymwys a bod yr holl waith wedi'i gwblhau / nwyddau a gwasanaethau wedi'u derbyn.

Bydd angen i'r Ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r gofynion canlynol wrth hawlio gan Cadwyn Clwyd:

- TAW (Treth ar Werth): Dim ond TAW na ellir ei hadennill y gellir ei hawlio drwy'r cyllid grant hwn. Os gall sefydliad yr ymgeisydd adennill TAW gan CThEF, ni fyddent yn gallu cynnwys hyn yn eu hawliad i Cadwyn Clwyd a rhaid i'r holl gostau a hawlir fod heb TAW. Fodd bynnag, os na all sefydliad yr ymgeisydd adennill TAW, byddant yn gallu adennill hyn gan Cadwyn Clwyd.

- Dylai anfonebau fod am 100% o'r costau yn yr hawliad grant ac ni ddylent gael eu rhannu na'u dosrannu ar draws cyllidebau eraill o fewn eich busnes / sefydliad.

- Bydd Cadwyn Clwyd yn talu'r gyfradd ymyrraeth gymeradwy (70%) ar yr hawliad. Os bydd yr ymgeisydd yn hawlio llai na'r swm a gymeradwywyd, bydd Cadwyn Clwyd yn talu 70% o'r swm a hawlir, nid 70% o'r swm a gymeradwywyd (90% ar gyfer mentrau cymdeithasol masnachol).

- Bydd angen i'r busnes / sefydliad sy'n ymgeisio gadw anfonebau gwreiddiol a datganiadau banc am gyfnod o ddeng mlynedd o'r dyddiad y daw'r cyfnod cyllido i ben (ar hyn o bryd tan o leiaf 31ain Mawrth 2027), neu nes bydd Cadwyn Clwyd yn cynghori y gellir eu gwaredu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr anfonebau gwreiddiol ar gael i archwilwyr eu gweld lle bo angen ac er mwyn cydymffurfio â gofynion cadw dogfennau grant.

- Cyflwynwch un hawliad yn unig i Cadwyn Clwyd lle bo hynny'n bosibl ac os yw eich llif arian yn caniatáu. (Trafodwch â'r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes os nad yw hyn yn bosibl.)

**Tystiolaeth sy'n Ofynnol wrth Gyflwyno Hawliad**
Ar gyfer pob eitem gymeradwy a brynir drwy'r grant, rhaid darparu'r dystiolaeth ganlynol.

**1. Anfoneb(au) a Dalwyd**
Rhaid i chi ddarparu copïau o anfonebau sy'n dangos:

- Cost lawn yr eitem neu'r gwasanaeth
- Bod yr anfoneb wedi'i chyfeirio at fusnes yr ymgeisydd
- Eitemau sy'n cyfateb i'r rhai a gymeradwywyd yn y cais grant

Sylwch:

- Ni all Cadwyn Clwyd dalu am eitemau nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cais cymeradwy
- Sicrhewch fod yr anfoneb lawn yn weladwy ac yn gyflawn
- Dylid nodi'n glir unrhyw eitemau nad ydynt yn berthnasol ar yr anfoneb
- Ni dderbynnir cadarnhad archebion na nodiadau dosbarthu fel anfonebau

**2. Datganiad(au) Banc**
Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod y taliad wedi'i wneud yn llawn. Rhaid i ddatganiadau banc ddangos yn glir:

- Enw'r busnes neu'r sefydliad
- Rhif y cyfrif a'r cod didoli
- Y trafodiad taliad sy'n ymwneud â'r anfoneb

Mae datganiadau banc ar-lein a sgrinluniau yn dderbyniol, os yw enw'r cyfrif, rhif y cyfrif a'r cod didoli yn weladwy.

Gallwch guddio trafodion neu falansau nad ydynt yn berthnasol os dymunwch. Anogir ymgeiswyr i amlygu neu nodi'n glir daliadau perthnasol er mwyn helpu'r broses adolygu hawliadau.

**3. Tystiolaeth o Eitemau a Brynwyd**
Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod yr eitemau cymeradwy wedi'u prynu ac yn cael eu defnyddio.
Gall hyn gynnwys:

- Ffotograffau o offer neu osodiadau
- Rhifau cyfresol (serial numbers) lle bo hynny'n berthnasol
- Tystiolaeth amgen lle na ellir tynnu lluniau o'r eitemau'n hawdd

Gall y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes roi cyngor ar dystiolaeth addas os oes angen.

**4. Tystiolaeth o Allbynnau a Deilliannau'r Prosiect**
Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth sy'n dangos y canlyniadau a gyflawnwyd drwy'r cyllid grant. Gall hyn gynnwys canlyniadau megis: creu swyddi, cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd neu fabwysiadu technoleg neu brosesau newydd. Gall y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes roi cyngor ar ofynion tystiolaeth addas.

**5. Holiadur Monitro a Gwerthuso**
Bydd hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau holiadur monitro byr i gefnogi gofynion adrodd i'r Awdurdod Arweiniol a Llywodraeth Cymru.

**6. Gwiriadau Hawliadau**
Gall Cadwyn Clwyd gynnal gwiriadau sampl cyn cymeradwyo taliad. Gall hyn gynnwys ymweliad â'r safle busnes a restrir yn y cais i wirio pryniannau a ariennir gan y grant a chyflawni'r prosiect.

**7. Dyddiad Cau Cwblhau'r Prosiect**
**Rhaid i bob prosiect llwyddiannus fod wedi'i gwblhau a'i hawlio erbyn dim hwyrach na <u>14ain o Chwefror 2027</u>**

**Gwneud Hawliad**
Bydd Cadwyn Clwyd yn eich gwahodd i gwblhau ffurflen hawlio ar Submit unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi talu am (wedi defrayo) yr holl gostau cymwys a bod yr holl waith wedi'i gwblhau / nwyddau a gwasanaethau wedi'u derbyn.

Lle bo angen, gall Cadwyn Clwyd gytuno i rannu taliadau grant dros uchafswm o ddau hawliad. Fodd bynnag, rhaid cyflwyno pob hawliad terfynol erbyn dim hwyrach na **<u>14ain Chwefror 2027.</u>**

**Gofynion Hawlio**

**TAW (Treth ar Werth)**
Dim ond TAW na ellir ei hadennill y gellir ei hawlio drwy'r grant.

- Os gall eich busnes adennill TAW gan CThEF, rhaid i'r holl gostau a gyflwynir yn yr hawliad eithrio TAW
- Os na all eich busnes adennill TAW, gellir ei chynnwys yn yr hawliad

**Hawlio Costau Cymwys**

- Rhaid i anfonebau a gynhwysir yn yr hawliad ddangos cost lawn yr eitem neu'r gwasanaeth sy'n cael ei hawlio
- Ni ddylid rhannu na dosrannu costau ar draws gwahanol gyllidebau neu ffynonellau cyllido
- Bydd Cadwyn Clwyd yn talu'r gyfradd ymyrraeth grant gymeradwy o hyd at 70% ar wariant cymwys a hawlir. Os byddwch yn hawlio llai na gwerth y prosiect a gymeradwywyd, cyfrifir y taliad grant ar 70% o'r swm gwirioneddol a hawlir, nid y swm gwreiddiol a gymeradwywyd

**Cadw Cofnodion**
Rhaid i'r busnes gadw anfonebau gwreiddiol, datganiadau banc a thystiolaeth ategol am gyfnod o ddeng mlynedd ar ôl diwedd y cyfnod cyllido (ar hyn o bryd tan o leiaf 31ain o Fawrth 2037), oni chynghorir fel arall gan Cadwyn Clwyd. Mae hyn yn ofynnol at ddibenion archwilio a chydymffurfio.

**Nifer yr Hawliadau**
Lle bo hynny'n bosibl, anogir ymgeiswyr i gyflwyno un hawliad am daliad.
Os nad yw hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau llif arian, trafodwch hyn â'r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes gan y gellir ystyried taliadau mewn mey nac un cam.